# Bwletin Ymgynghori - wythnos yn gorffen 9 Rhagfyr 2011

| Newydd ei dderbyn yr wythnos hon | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ffynhonnell** | **Teitl/dolen** | **Crynodeb** | **Dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad olaf derbyn ymateb** |
| **Llywodraeth Cymru** | Cwrdd â'r Her Tai: Creu consensws ar gyfer gweithredu | Gall tai ddylanwadu'n fawr ar les pobl, yn gymdeithasol ac yn economaidd. Mae'n faes, felly, sy'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith yr ydym yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod cartref boddhaol ar gael i bawb. Ond mae heriau mawr yn ein hwynebu ac nid ydynt yn rhai hawdd i'w datrys:<br>• Nid oes digon o gartrefi ar gael i bawb am fod y boblogaeth yn cynyddu, am fod pobl yn byw yn hirach, ac am fod mwy o bobl yn dewis byw ar eu pen eu hunain;<br>• Mae angen gwella llawer o dai, yn enwedig y rheini sy'n cael eu rhentu oddi wrth landlordiaid preifat a rhai o'r tai hŷn y mae pobl yn berchen arnynt;<br>• Sicrhau bod pobl yn cael y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt er mwyn dod o hyd i gartref, a'i gadw, yn enwedig y bobl hynny sydd mewn amgylchiadau personol anodd iawn neu sy'n wynebu sefyllfaoedd argyfyngus yn eu cartrefi;<br>• Mae'r cynnydd yng nghostau byw a'r newidiadau i fudd-daliadau yn effeithio ar bobl, ac mae'r effaith honno'n destun pryder. | 08/12/2011 | 17/02/2012 |
| **Llywodraeth Cymru** | Newidiadau gweithdrefnol arfaethedig ar gyfer hysbysebu gorchmynion rheoleiddio traffig ffyrdd | Yn amodol ar ganlyniad yr Ymgynghoriad hwn, cynigir diwygio tair set o reoliadau presennol er mwyn symleiddio'r broses o hysbysebu Gorchmynion Rheoleiddio Traffig, gan roi mwy o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ac Awdurdodau Traffig Lleol yng Nghymru hysbysebu'r cyfryw orchmynion a dileu'r gofyniad statudol cyfredol i roi hysbysiadau cyhoeddus mewn papurau newydd. | 07/12/2011 | 29/02/2012 |
| **BBC Ymddiriedolaeth** | Ymgynghoriad ar y polisi Darllediadau Gwleidyddol drafft | Bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i'r Ymddiriedolaeth ystyried barn pleidiau gwleidyddol cofrestredig, sefydliadau perthnasol megis y Comisiwn Etholiadol, ynghyd â chyrff rheoleiddiol eraill, darlledwyr ac aelodau o'r cyhoedd, wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo'r polisi darllediadau gwleidyddol arfaethedig.<br><br>Darperir darllediadau gwleidyddol gan ITV ac S4C hefyd, sy'n aelodau o'r Grŵp Cyswllt Darlledwyr. Caiff ITV ei reoleiddio gan Ofcom. | 06/12/2011 | 20/01/2012 |
| **Adran Gwaith a Phensiynau** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>Support for mortgage interest | This call for evidence sets out the Government's ideas on simplifying the help provided towards mortgage interest payments for working age and pensioner home owners, and considers potential future changes in line with Universal Credit principles, and fairness to taxpayers. It seeks responses to a number of questions and other comments that respondents may wish to make about the options in the document or | 06/12/2011 | 27/02/2012 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | - call for evidence | other potential option | | |
| **Llywodraeth Cymru** | Newidiadau Arfaethedig i Gasgliadau Data Digartrefedd | Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn defnyddwyr am y cynigion o:<br>• newidiadau pellach i ddatganiad cyfredol casglu data chwarterol a blynyddol digartrefedd; a<br>• chyflwyniad datganiad casglu data newydd am atal a chymorth digartrefedd dwywaith y flwyddyn.<br><br>Bydd eich cyfraniadau yn ein helpu i ddeall effaith y gallai'r newidiadau hyn gael ar unigolion a sefydliadau sy'n defnyddio'r ystadegau hyn. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn hysbysu ein penderfyniad os oes modd rhoi'r newidiadau hyn ar waith. Mae hyn yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Ystadegau Swyddogol sy'n dweud bod ymgysylltu â defnyddwyr yn hanfodol i ffydd mewn ystadegau a sicrhau gwerth cyhoeddus uchaf. | 05/12/2011 | 16/01/2012 |
| **Llywodraeth Cymru** | Arolwg o'r Dyfroedd Pysgod Cregyn sydd wedi'u Dynodi yng Nghymru | Mae'r Gyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn yn ymdrin ag ansawdd dyfroedd pysgod cregyn ac â'r arfordiroedd a'r aberoedd y dylid yn ein barn ni eu diogelu neu eu gwella i gynnal bywyd a thwf pysgod cregyn a chyfrannu at ansawdd uchel y pysgod cregyn rydym yn eu bwyta. | 05/12/2011 | 02/03/2012 |
| **Llywodraeth Cymru** | Diweddaru rheoliadau cymwysterau athrawon ysgol yng Nghymru | Mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar gynigion i gyflwyno rheoliadau wedi'u diweddaru i ddisodli Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004.<br><br>Mae hyn er mwyn newid rhai o'r gofynion ar gyfer cydnabyddiaeth fel athro/athrawes cymwysedig yng Nghymru. Byddai hyn yn cynnwys rhai diwygiadau a diweddariadau amrywiol. | 05/12/2011 | 30/01/2012 |

*******

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Adran Busnes Arloesi a Sgiliau** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>Mutualisation of the Post Office | Consultation that explores what a mutual Post Office Ltd might look like. It seek feedback for more clarity on the issues that the Government would need to take into account before mutualisation could be achieved.<br><br>This consultation builds on the comprehensive report Mutual Options for Post Office Ltd commissioned by Government and published in May 2011 by Co-operatives UK. The Government aims to appraise further the case for and shape of a mutualisation. | 19/09/2011 | 12/12/2011 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Equality & Human Rights Commission** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>Consultation on our strategic plan for 2012-15 | Equality, human rights and good relations between people affect us all, regardless of our backgrounds, so we are committed to meaningfully consulting and engaging with all those who are interested in the Commission's work. Therefore our strategic planning process includes three phases of consultation and involvement of our stakeholders and the general public. The current consultation concerns phase two of the process. | 11/10/2011 | 12/12/2011 |
| **Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Y Pwyllgor Deisebau** | Academi Heddwch Cymru | Daeth y ddeiseb a ganlyn i law Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru:<br>'Rydym ni'n galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r posibilrwydd ac i edrych pa mor ymarferol fyddai i Gymru gael Sefydliad Heddwch i edrych ar heddwch a hawliau dynol, tebyg i'r sefydliadau a gefnogir gan lywodraethau gwladwriaethau yn Fflandrys, Catalonia a mannau eraill yn Ewrop.'<br><br>A ydych yn teimlo bod yr hyn y mae'r ddeiseb yn galw amdano'n rhesymol a/neu'n ymarferol? | 19/10/2011 | 14/12/2011 |
| **Llywodraeth Cymru** | Rheoliadau Iechyd Meddwl (Darpariaeth Ranbarthol) (Cymru) 2012 | Rheoliadau Iechyd Meddwl (Darpariaeth Ranbarthol) (Cymru) 2012<br>Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd eich sylwadau ar reoliadau a fyddai'n galluogi Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol yng Nghymru i ddod yn rhan o drefniadau gweithio rhanbarthol.<br><br>Byddai gofyn i'r cyrff hyn (y 'partneriaid iechyd meddwl lleol'):<br>• ddarparu gwasanaethau cymorth sylfaenol iechyd meddwl yn lleol, dan Ran 1 Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, a<br>• gwneud trefniadau i ddarparu asesiadau ar gyfer cynddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd, o dan Ran 3 o'r Mesur.<br><br>Mae'r Rheoliadau wedi cael eu drafftio mewn modd sy'n cydnabod ac yn hwyluso'r trefniadau rhanbarthol hyn.<br><br>Yn dilyn hyn, ni fyddai Byrddau Iechyd Lleol nac awdurdodau lleol yn cael gwneud cynlluniau Rhan 1 na threfniadau Rhan 3 yn lleol ar lefel awdurdod fel sy'n cael ei ganiatáu ar hyd o bryd dan y Mesur. Yn hytrach, byddai'n rhaid iddynt ddod yn rhan o gynlluniau a threfniadau rhanbarthol. | 26/09/2011 | 16/12/2011 |
| **DEFRA** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>Rabies control strategy | This consultation seeks views on Defra's recently revised and published draft Rabies Control Strategy, which sets out a framework for how an incident or outbreak of rabies in England and/or Wales would be managed.<br><br>The Control Strategy describes the general control options that have been identified for the most likely scenarios for cases of classical rabies virus and the rationale for such controls. In general we have avoided prescribing exactly how and when individual controls should be applied as we need to retain the necessary flexibility so that each situation can | 18/10/2011 | 16/12/2011 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | be dealt with on a case-by-case basis appropriate to the particular circumstances. We do however want to understand in a bit more detail the practicalities of the control options as there may be some scope in clarifying the circumstances under which they are more likely to be used, less likely or indeed ruled out altogether. We are specifically seeking views on the use of control options though we welcome general comments on all aspects of the document. | | |
| **Llywodraeth Cymru** | Ymgynghoriad ar y cod Ymarfer drafft ar rannau 2 a 3 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 | Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar Cod Ymarfer Drafft ar gyfer gofal a chynllunio triniaeth. Mae hefyd yn cynnwys ailasesu ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd o dan y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.<br>Mae Rhan 2 o'r Mesur yn ymwneud â:<br>• phenodi cydgysylltwyr gofal fel rhan o'r broses cynllunio a chydlynu gofal;<br>• cynlluniau gofal a thriniaeth i bobl sy'n derbyn gwasanaeth iechyd meddwl eilaidd.<br>Mae Rhan 3 o'r Mesur yn ymwneud â:<br>• defnyddwyr blaenorol gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd;<br>• rhoi hawl iddynt atgyfeirio eu hunain yn ôl at wasanaethau eilaidd i gael eu hasesu'n uniongyrchol.<br><br>Mae'r Cod Drafft yn nodi egwyddorion arwain a chanllawiau ar arferion ar gyfer gweithredu'r Mesur. | 18/10/2011 | 16/12/2011 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | Ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hyn | Bydd ymchwiliad y Pwyllgor yn archwilio darpariaeth gofal preswyl ar gyfer bobl hŷn yng Nghymru a sut y gall ddiwallu eu hanghenion yn awr ac yn y dyfodol.<br><br>**Dyma gylch gorchwyl yr ymchwiliad:**<br><br>Ymchwilio i'r ddarpariaeth o ofal preswyl yng Nghymru a'r ffyrdd y gall fodloni anghenion presennol pobl hŷn a'u hanghenion ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys:<br>• y broses a ddilynir gan bobl hŷn wrth iddynt fynd i ofal preswyl ac argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau amgen yn y gymuned, gan gynnwys gwasanaethau ailalluogi a gofal yn y cartref.<br>• gallu'r sector gofal preswyl i fodloni'r gofyn am wasanaethau gan bobl hŷn o ran adnoddau staffio, gan gynnwys y sgiliau sydd gan staff a'r hyfforddiant sydd ar gael iddynt, nifer y lleoedd a'r cyfleusterau, a lefel yr adnoddau.<br>• ansawdd gwasanaethau gofal preswyl a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd; effeithiolrwydd gwasanaethau o ran bodloni'r amrywiol anghenion ymhlith pobl hŷn; a rheolaeth ar gau cartrefi gofal.<br>• effeithiolrwydd trefniadau rheoleiddio ac archwilio ar gyfer gofal preswyl, gan gynnwys y cwmpas ar gyfer craffu mwy ar hyfywdra ariannol darparwyr gwasanaethau.<br>• darpariaeth o fodelau gofal newydd sy'n dod i'r amlwg<br>• y cydbwysedd rhwng darpariaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector annibynnol, a modelau ariannu, rheoli a pherchnogaeth amgen, fel y rheini a gynigir gan y sector gydweithredol a chydfuddiannol, y trydydd sector, a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. | 24/10/2011 | 16/12/2011 |
| **Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>The performance review 2011/12 | Each year we carry out a **performance review** of the health professional regulators and report our findings to Parliament, to health ministers in England, Wales, Scotland and Northern Ireland, and to the public.<br><br>The first stage of the performance review requires the regulators to provide evidence of how they meet the **Standards of Good Regulation**. The standards include how the regulators set and communicate standards for their health professionals to meet, how they place individuals on their registers of health professionals, how they ensure the quality of education and training and how they take action against registrants when their fitness to practise is called into question. | 16/09/2011 | 16/12/2011 |
| **Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>Consultation on our charges for 2012 to 2015 | This consultation covers our charging proposals for Environmental Permitting, abstraction and Emissions Trading charging schemes from 2012-2015. We are seeking views from charge payers, trade associations and other interested parties on our major proposals which are:<br>• No change to the rate of charges for the majority of charge payers for two years with a check at the end of the first year (this | 28/09/2011 | 21/12/2011 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | does not include abstraction charges)<br>• A small number of technical changes that are largely beneficial to industry<br>• A small increase in charges in year 3.<br>We propose to increase abstraction charges each year to fund specific cost pressures. | | |
| **BBC Ymddiriedolaeth** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>Service review of BBC Local Radio | BBC Local Radio should deliver up-to-the minute, accurate, impartial and independent news, analysis and insight. It should provide fast and comprehensive coverage of local, UK and international events as they unfold and specialist analysis to put the news in context.<br><br>The Trust has issued a service licence for BBC Local Radio which sets out what each station is expected to achieve. We want to find out how well you think that BBC Local Radio is meeting these expectations? | 06/10/2011 | 21/12/2011 |
| **BBC Ymddiriedolaeth** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>Delivering Quality First | In January 2011 the BBC Trust asked BBC management to develop a set of proposals to re-organise the BBC's business and make the savings required by the 2010 licence fee settlement.<br><br>This public consultation marks the conclusion of the process of internal debate and consultation over those proposals. | 06/10/2011 | 21/12/2011 |
| **BBC Ymddiriedolaeth** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>Service review of BBC Asian Network | The BBC Asian Network's remit is to provide speech and music output appealing to British Asians, with a strong focus on news and current affairs. It should be primarily in English, but some programming should be provided in a range of South Asian languages.<br><br>The Trust has issued a service licence for the Asian Network which sets out what the station is expected to achieve. We want to find out how well you think that the station is meeting these expectations? | 06/10/2011 | 21/12/2011 |
| **Llywodraeth Cymru** | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (1992) a Chynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) (2007) | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar y cynnydd arfaethedig i gyfraddau cyfraniadau'r gweithwyr o 1 Ebrill 2012 i aelodau o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (1992) a Chynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) (2007). | 26/10/2011 | 21/12/2011 |
| **Llywodraeth Cymru** | Canllawiau'r Rhaglen Cefnogi Pobl | Rhagwelir y caiff y canllawiau hyn eu defnyddio o fis Ebrill 2012 ymlaen pan gaiff y Rhaglen Cefnogi Pobl newydd ei lansio.<br><br>Ffrwyth rhaglen weithredu cefnogi pobl yw'r canllawiau hyn. Mae'r rhaglen yn rhoi ar waith yr argymhellion a wnaed yn adolygiad yr Athro Syr Mansel Aylward. Nid yw'r ymgynghoriad yn gofyn am eich barn ynghylch manteision ac anfanteision yr argymhellion. Yn hytrach, mae'n gofyn am eich barn ynghylch rhoi'r argymhellion ar waith. | 11/11/2011 | 23/12/2011 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Adran Iechyd** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>Proposals to introduce independent prescribing by physiotherapists | This consultation concerns proposals for physiotherapists to become independent prescribers of medicines. It also proposes that physiotherapist independent prescribers are allowed to mix licensed medicines prior to administration and direct others to mix, and to be able to prescribe independently from a limited list of controlled drugs. This would be achieved primarily by changes to the Medicines Act 1968 and the Misuse of Drugs Regulations 2001. | 15/09/2011 | 30/12/2011 |
| **Adran Iechyd** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>Proposals to introduce independent prescribing by podiatrists | This consultation concerns proposals for podiatrists to become independent prescribers of medicines. It also proposes that podiatrist independent prescribers are allowed to mix licensed medicines prior to administration and direct others to mix, and to be able to prescribe independently from a limited list of controlled drugs. This would be achieved primarily by changes to the Medicines Act 1968 and the Misuse of Drugs Regulations 2001. | 15/09/2011 | 30/12/2011 |
| **Adran Gwaith a Phensiynau** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>Consultation on the abolition and transfer of functions of the Child Maintenance and Enforcement Commission | The Government is proposing to:<br><br>• abolish the Child Maintenance and Enforcement Commission (C-MEC) as a non-departmental public body, and<br>• transfer its functions to the Secretary of State for Work and Pensions.<br>We will do this using the powers in the Public Bodies Bill, currently before Parliament.<br>This change will enable Ministers to have more direct control, responsibility, and accountability over the:<br>• delivery of child maintenance strategic and operational policy, and<br>• ongoing and future reform of child maintenance.<br><br>We are seeking views on this proposal. This is a structural change, and the consultation does not imply any change in the services delivered to customers. Please note that we are not seeking views on child maintenance policy issues. The consultation is aimed primarily at those who have a professional relationship with the Child Maintenance and Enforcement Commission, although all views are welcome. | 10/10/2011 | 03/01/2012 |
| **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)** | Strategaeth Ymhysylltu | Mae'r papur ymgynghori hwn yn nodi rhai syniadau ynglŷn â sut y gallwn gynyddu cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, a phobl sydd â diddordeb mewn gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol, ond fe fydd gennych eich syniadau eich hun yr hoffem glywed amdanynt.<br><br>Rydym yn gweithio gyda Chyfranogaeth Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn cael cysylltiad uniongyrchol â phobl yn ystod y chwe mis nesaf o'r ymgynghoriad. Bydd mwy o wybodaeth am gyfleoedd i ymgysylltu â ni ar gael ar ein gwefan yn ystod yr wythnosau nesaf. | 05/07/2011 | 05/01/2012 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | Papur Gwyn: Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) | Ar 12 Gorffennaf 2011, gwnaed datganiad gan y Prif Weinidog ynghylch Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Yn y datganiad hwnnw cyhoeddodd y byddai Bil Addysg yn 2012.<br><br>Mae'r Papur Gwyn hwn yn gofyn am safbwyntiau ar y ddeddfwriaeth arfaethedig ar gyfer Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru).<br><br>A fyddech cystal â defnyddio'r holiadur isod i gyflwyno'ch sylwadau. Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc. | 10/10/2011 | 05/01/2012 |
| **Llywodraeth Cymru** | Cynnig i gwblhau trosi'r Gyfarwyddeb Fframwaith ar Iechyd a Diogelwch Gweithwyr 89/391/CEE i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 | Diben yr Ymgynghoriad hwn yw ymgynghori ar y rheoliadau arfaethedig ar gyfer trosi'r Gyfarwyddeb Fframwaith ar Iechyd a Diogelwch Gweithwyr i Orchymyn Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.<br><br>Yn amodol ar ganlyniadau'r ymarfer ymgynghori hwn, cynigir y bydd y rheoliadau newydd yn cael eu gosod yn Chwefror 2012 ac yn dod i rym ar unwaith. | 11/11/2011 | 06/01/2012 |
| **Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Y Pwyllgor Cyllid** | Effeithiolrwydd Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru | Mae'r Pwyllgor Cyllid yn galw am wybodaeth i'w helpu i graffu ar effeithio lrwydd y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yngNghymru. Hoffwn ichi roi gwybod inni am eich profiad chi<br>o effaith y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru hydyn hyn. Y n benodol, rydym yn bwriadu archwilio'r defnydd a wnaed o'r Rhaglenni Cydgyfeiriant a'r RhaglenniCystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol y ng Nghymru ar gyfer y cyfnod rhwng 2007 a 2013. | 31/10/2011 | 09/01/2012 |
| **Yr Asiantaeth Safonau Bwyd** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>Local Authority Audit Rating Scheme | The Food Standards Agency in Wales is consulting on its proposals to carry out a rolling three-year programme of audits of food and animal feed law enforcement functions of Welsh local authorities.<br><br>The Food Standards Agency intends to introduce, from April 2012, a rolling three-year programme of audits of the food and animal feed law enforcement functions undertaken by local authorities in Wales. We propose that, in order to increase transparency and accessibility of audit findings, each local authority service receives a grade following the audit. The grade will reflect the findings of the audit process in relation to each local authority's systems, its performance and the outcomes achieved. | 05/10/2011 | 10/01/2012 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Yr Eglwys yng Nghymru** | Dweud eich barn am ddyfodol yr Eglwys yng Nghymru | Gwahoddir plwyfolion ym mhob rhan o Gymru i rannu eu syniadau am ddyfodol yr Eglwys yng Nghymru gyda thîm o gynghorwyr sy'n cynnal adolygiad annibynnol cynhwysfawr.<br><br>Cynhelir cyfres o gyfarfodydd agored ym mhob un o'r chwe esgobaeth yng Nghymru dros yr ychydig fisoedd nesaf i roi cyfle i bobl gwrdd â'r tîm adolygu a dweud eu barn ar ystod o faterion - o ariannu adeiladau'r eglwys i ad-drefnu strwythurau.<br>Cynhelir un cyfarfod agored ym mhob esgobaeth. Mae'r dyddiadau a'r lleoliadau fel sy'n dilyn:<br>• 8 Tachwedd, 6.30yh - Eglwys Sant Ioan Caerfyrddin<br>• 9 Tachwedd, 2yh - Cadeirlan Aberhonddu<br>• 28 Tachwedd, 6.30yh - Cadeirlan Llanelwy<br>• 29 Tachwedd, 2.30yh - Cadeirlan Bangor<br>• 10 Ionawr, 7.30yh - Llandaff (lleoliad i'w gadarnhau)<br>• 11 Ionawr, 2.30yh - Priory Centre, Y Fenni | 06/11/2011 | 12/01/2012 |
| **Adran Gwaith a Phensiynau** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>The Pensions (Institute and Faculty of Actuaries - Amendment) Regulations 2012 | This consultation seeks views on the enclosed draft of the Pensions (Institute and Faculty of Actuaries - Amendment) Regulations 2012. The intention is that the regulations will come into force in April 2012.<br><br>The consultation is primarily aimed at the merged actuarial body, the Institute and Faculty of Actuaries. Comments are also welcomed from the wider public. | 01/12/2011 | 12/01/2012 |
| **Y Swyddfa Gartref** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>Domestic violence disclosure scheme | This consultation seeks your views on whether to introduce a scheme for disclosing information about an individual's history of domestic violence to a new partner. | 25/10/2011 | 13/01/2012 |
| **Y Swyddfa Gartref** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>Consultation on police powers to promote and maintain public order | This three-part consultation seeks your views on the areas of police powers which the government is committed to reviewing:<br>• the relevance of the word 'insulting' in section 5 of the Public Order Act 1986<br>• new powers to request removal of face coverings<br>• new powers to impose curfew to prevent and control outbreaks of disorder | 13/10/2011 | 13/01/2012 |
| **Adran Gwaith a Phensiynau** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>Social security information-sharing: draft regulations - | This consultation seeks views on the introduction of new powers which will make data sharing easier for certain welfare services and social security purposes.<br><br>The consultation is aimed primarily at all local authorities across England, Scotland and Wales, including parts of the local authority that deliver Housing Benefit or welfare services. We welcome views from | 21/11/2011 | 13/01/2012 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | public consultation | other people or organisations who might also be interested, such as applicants for a benefit or service, or welfare rights organisations. We are happy to receive responses from anyone who wants to comment on the new policy. | | |
| **DEFRA** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>Draft Guidance on Company Social Tariffs 2011 | Section 44 of the Flood and Water Management Act 2010 enables water and sewerage companies in England and Wales to include social tariffs in their charges schemes, reducing charges for households who would otherwise have difficulty in paying their bill in full. The Act requires the Secretary of State to issue guidance to water and sewerage companies and Ofwat, and requires companies and Ofwat to have regard to the guidance. We have now produced draft guidance and are consulting on this guidance. This consultation is aimed at water and sewerage companies and organisations representing customers but we welcome responses from all interested parties. | 26/10/2011 | 17/01/2012 |
| **Cyngor Celfyddydau Cymru** | Cynllun Cydraddoldeb Strategol - Drafft Ymgynghorol | Rydym ar hyn o bryd yn ymgynghori ar ein Cynllun Drafft Cydraddoldeb Strategol. Croesawn eich sylwadau. Danfonwch eich ymatebion at ymateb@celfcymru.org.uk erbyn 20 Ionawr, 2012. | 28/10/2011 | 20/01/2012 |
| **Llywodraeth Cymru** | Strategaethau Cyfranogi Lleol 0-25 | Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn Awdurdodau Lleol a phartneriaid allweddol ar ganllawiau statudol drafft.<br><br>Bydd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a phartneriaid allweddol sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gyfrannu at benderfyniadau lleol sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae hyn yn unol ag Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.<br><br>Mae'r canllawiau hefyd yn ceisio annog arfer da trwy amlinellu'r gofynion sylfaenol ar gyfer Strategaeth Cyfranogi Lleol.<br>Cynhelir digwyddiadau ledled Cymru yn ystod yr ymgynghoriad hwn i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i fynegi barn. | 01/11/2011 | 23/01/2012 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | Diwygiadau i Gynllun Pensiwn y diffoddwyr Tan (1992) a Chynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tan (2007) | Diben yr ymgynghoriad hwn yw ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig ac mae'r papur hwn yn nodi nifer o gynigion polisi o ran y newidiadau a awgrymir i ddau gynllun pensiwn y diffoddwyr tân, sef;<br>• Diddymu'r rheol sy'n galluogi ymddeoliadau cynnar gorfodol er budd<br>• Effeithlonrwydd (rheol A14);<br>• Newidiadau i'r dull o fynegeio budd-daliadau pensiwn ychwanegol - i'r Mynegai<br>• Prisiau Defnyddwyr;<br>• Cymudo - disgresiwn i ganiatáu'r uchafswm taliad;<br>• Tâl pensiynadwy - diffiniad;<br>• Gwahaniaethu ar sail oedran - gwyliau cyfraniadau;<br>• Apeliadau meddygol - y pŵer i adolygu penderfyniadau;<br>• Apeliadau am resymau nad ydynt yn feddygol - apêl i'r Ombwdsmon Pensiynau;<br>• Atal pensiwn tra'n gweithio i awdurdod tân ac achub;<br>• Treth pensiwn - cysoni â deddfwriaeth treth;<br>• Diwygiadau technegol, arall (gan gynnwys diweddaru cyfeiriadau statudol). | 31/10/2011 | 23/01/2012 |
| **Llywodraeth Cymru** | Rheoleiddio Amgylcheddol gan Awdurdodau Lleol o Ffatrïoedd a Pheiriannau Diwydiannol: Ffïoedd a Thaliadau ar Sail Risg 2012/13 | Mae awdurdodau lleol yn adfer eu costau am reoleiddio diwydiannau i atal neu leihau llygredd i lefelau derbyniol drwy ffïoedd a thaliadau ar gyfer Trwyddedau Amgylcheddol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â'r ffïoedd a'r taliadau hyn yng Nghymru.<br><br>Mae Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010 yn caniatáu gosod ffïoedd a thaliadau ar gyfer Atal a Rheoli Llygredd Aer Lleol (LAPPC) ac Aer Lleol - Atal a Rheoli Llygredd Integredig (LA-IPPC) ar lefelau a fydd yn adfer costau awdurdodau lleol ar gyfer gweithredu'r system. | 31/10/2011 | 23/01/2012 |
| **Cyngor Celfyddydau Cymru** | Arian i Ddatblygu'r Diwydiant Cerddoriaeth - Ymgynghoriad | Croesawn eich sylwadau ar ein dogfen ymgynghorol Arian i Ddatblygu'r Diwydiant Cerddoriaeth. Danfonwch eich ymatebion at ymateb@celfcymru.org.uk erbyn 25 Ionawr, 2012. | 07/11/2011 | 25/01/2012 |
| **Llywodraeth Cymru** | Fframwaith monitro strategol ar gyfer y system gynllunio: Mesur y cynnydd tuag at greu Cymru gynaliadwy | Rydym eisiau eich barn ar:<br>• ein ffordd o fesur cyfraniad y system gynllunio at ein gweledigaeth ar gyfer Cymru gynaliadwy;<br>• pob un o'r dangosyddion arfaethedig;<br>• lefelau datblygu ac adrodd y fframwaith newydd;<br>• cyfuno mesurau cyfredol;<br>• yr effeithiau ar awdurdodau cynllunio lleol; a<br>• threfniadau adrodd y fframwaith. | 04/11/2011 | 27/01/2011 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | The Mental Health (Primary Care Referrals and Eligibility to Conduct Primary Mental Health Assessments) (Wales) Regulations 2012 | Rheoliadau Drafft sy'n galluogi meddygon teulu i atgyfeirio unigolion sydd â'r hawl i dderbyn gwasanaethau meddygol sylfaenol. | 07/11/2011 | 27/01/2012 |
| **Adran Gwaith a Phensiynau** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>The Occupational and Personal Pension Schemes (Levies - Amendment) Regulations 2012 - consultation on draft regulations | The consultation seeks views on the enclosed draft of the Occupational and Personal Pension Schemes (Levies - Amendment) Regulations 2012, which would make changes to the rates of the general levy and the Pension Protection Fund (PPF) administration levy for 2012/13 onwards. The intention is that the regulations will come into force on 1 April 2012. | 07/11/2011 | 30/01/2012 |
| **Llywodraeth Cymru** | Cynllun plant - drafft | Y mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gynllun y mae'n ofynnol i ni (Llywodraeth Cymru) ei chynhyrchu o dan y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. | 07/11/2011 | 30/01/2012 |
| **Llywodraeth Cymru** | Tyllu cosmetig i bobl ifanc | Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella iechyd pobl yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwireddu cam gweithredu allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu: 'ymgynghori ar yr angen i gyflwyno deddfwriaeth i sicrhau bod yn rhaid cael cydsyniad rhiant cyn y gellir rhoi triniaeth tyllu cosmetig i bobl ifanc'.<br>Rydym ni'n ystyried cyflwyno deddf newydd a fydd yn ymdrin â'r meysydd allweddol canlynol:<br>1. Yr angen i riant neu warcheidwad roi ei ganiatâd (yn ysgrifenedig a thrwy fynd i'r apwyntiad tyllu) cyn i berson ifanc o dan oedran penodol gael triniaeth tyllu cosmetig (ar hyn o bryd rydym ni'n credu mai 16 ddylai'r terfyn oedran fod).<br>2. Cyfyngiad oedran clir ar gyfer triniaethau tyllu cosmetig personol.<br>3. Set safonol o gwestiynau y mae'n rhaid i'r sawl sy'n rhoi'r driniaeth eu gofyn cyn i unrhyw driniaeth tyllu cosmetig gael ei rhoi. | 18/10/2011 | 31/01/2012 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>Partners in Healthcare Strategy 2012-2014 | This strategy sets out our plans for improving public health through the provision of information and an approach to continuous engagement with the people of Wales. We recognise that through our work we can contribute to the improvement of individual's health through collaboration and partnership working. Our health information and web site developments provide health advice and information that can empower and educate individuals to take responsibility for maintaining and improving their health and wellbeing.<br><br>The Welsh Ambulance Services NHS Trust (WAST) wants to place its users at the centre of its services, to make sure we are providing safe, high quality care and services. | 01/11/2011 | 31/01/2012 |
| **Llywodraeth Cymru** | Cynllun Drafft y Sector Adeiladu a Dymchwel | Mae'r cynllun hwn yn cwmpasu gwastraff o brosiectau adeiladu, peirianneg sifil a dymchwel. Mae'n anelu at rwystro a lleihau gwastraff a chael rhagor o ailgylchu o fusnesau yn y sector hwn.<br><br>Bydd yn gwneud hyn trwy:<br>• ddylanwadu i newid ymddygiad;<br>• annog ffyrdd gwell o weithio;<br>• datblygu partneriaethau gyda'r trydydd sector; a<br>• rheolaethau deddfwriaethol.<br>Bydd yr amcanion yn cael eu hystyried o'r broses o ddylunio'r cynnyrch neu'r adeiladau i ddymchwel, adfer a gwaredu. | 08/11/2011 | 31/01/2012 |
| **Llywodraeth Cymru** | Papur Gwyn: Cynigion ar gyfer Deddfwriaeth ar Roi Organau a Meinweoedd | Mae'r ddogfen hon yn gofyn am safbwyntiau ar gynigion deddfwriaethol mewn perthynas â rhoi organau a meinweoedd.<br>Ar 12 Gorffennaf 2011, gwnaeth Prif Weinidog ddatganiad ar Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Yn y datganiad hwnnw dywedodd y bydd Llywodraeth Cymru'n<br><br>"… lansio papur ymgynghori gwyn ar Fil Rhoi Organau (Cymru) cyn diwedd y flwyddyn hon. Bydd y Bil yn darparu ar gyfer system o ddewis peidio â rhoi organau, gyda chefnogaeth rhaglen gyfathrebu eang".<br><br>Mae'r ymgynghoriad Papur Gwyn hwn yn gofyn am ymatebion ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer deddfwriaeth ar roi organau a meinweoedd<br><br>Y nod yw cyflwyno system yng Nghymru sy'n anelu at gynyddu nifer y rhoddwyr organau a meinweoedd yng Nghymru, gan alluogi mwy o fywydau i gael eu harbed ac i wella ansawdd bywyd eraill.<br>Rhoddir ystyriaeth i'ch ymatebion chi wrth ddatblygu'r Bil. | 07/11/2011 | 31/01/2012 |
| **Llywodraeth Cymru** | Ar sail Cyflogaeth Hyfforddi Athrawon yng Nghymru | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar gynigion i gyflwyno ar sail cyflogaeth diwygiedig Cynllun Hyfforddi Athrawon i ddod i rym o 1 Medi 2013.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar gynigion i gyflwyno Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth diwygiedig. | 11/11/2011 | 31/01/2012 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Byddai'r cynllun hwn yn disodli Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth 2011 (2011 Rhif 32) ("Cynllun 2011") a byddai'n cyflwyno darpariaethau a fyddai'n galluogi rhaglen hyfforddi ychwanegol i gael ei chynnal pe bai angen. | | |
| **Adran Busnes Arloesi a Sgiliau** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>Call for evidence - Collective Redundancy Consultation Rules | With this Call for Evidence we are keen to establish the advantages and disadvantages of the current rules on collective redundancy consultation. We want to find out what effect they have on business confidence and flexibility to respond effectively and appropriately to market opportunities and challenges. We want to understand the challenges for business in pursuing collective redundancy consultation - including the barriers to starting consultation and achieving agreement. We also want to explore the issues for employees - including the ability to engage meaningfully with their employer during a consultation and the ability to find and secure alternative employment or training, should that prove necessary. | 23/11/2011 | 31/01/2012 |
| **Llywodraeth Cymru** | Casglu a Chyhoeddi Ystadegau Tân | Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn defnyddwyr ar gynigion i newid y casgliadau data ac allbynnau ystadegol. Bydd eich cyfraniadau yn ein helpu i ddeall yr effaith y gallai'r newidiadau hyn ei chael ar yr unigolion a'r sefydliadau sy'n defnyddio ystadegau hyn. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn llywio ein blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Mae hyn yn cydymffurfio gyda Chod Ymarfer Ystadegau Swyddogol sy’n datgan bod ymgysylltu effeithiol â defnyddwyr yn hanfodol o ran ymddiriedolaeth yn ystadegau ac i sicrhau gwerth cyhoeddus uchaf. | 09/11/2011 | 01/02/2012 |
| **Llywodraeth Cymru** | Adolygiad o’r eithriadau i’r rheoliadau ynghylch uchafswm hyd cychod pysgota yn y parth 0-6nm. | Mae gwahardd pysgota mewn ardaloedd penodol o’r parth 0-6nm wrth ddefnyddio cychod mwy na chyfyngiadau maint penodol yn sylfaenol. Mae hyn yn ofynnol i helpu i gyflawni’r weledigaeth sydd yn Strategaeth Pysgodfeydd Cymru. | 10/11/2011 | 02/02/2012 |
| **Llywodraeth Cymru** | Galw am dystiolaeth: Sicrhau system gynllunio effeithiol | Fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Bil Cynllunio a fydd yn cael ei gyflwyno yn 2013, mae grŵp cynghori annibynnol wedi'i sefydlu i adolygu ac ystyried yr opsiynau ar gyfer sut mae cynnal y system gynllunio yn y dyfodol. | 11/11/2011 | 03/02/2012 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | Deddf Cydraddoldeb 2010: Dyletswydd ar ysgolion ac Awdurdodau Lleol i ddarparu a chymhorthion a gwasanaethau ategol i blant anabl | Mae’r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio barn am gychwyn y ddarpariaeth sydd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>Mae'r ddarpariaeth sy’n gosod dyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau lleol i ddarparu cymhorthion ategol yn rhan o’u dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer plant anabl.<br><br>Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi y bydd un o Weinidogion Llywodraeth y DU yn gyfrifol am gychwyn y ddyletswydd newydd sy’n ymwneud â chymhorthion ategol, llunio unrhyw reoliadau dan adran 22 o Ddeddf 2010 a chynnal unrhyw ymgynghoriad ynghylch y materion hyn yng nghyswllt Cymru. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno i ymgynghori yng nghyswllt Cymru ar ran Gweinidog y DU dan adran 83(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.<br><br>Mae’r ymgynghoriad yn ceisio ymatebion ynghylch dau fater. Yn gyntaf, y dyddiad y dylai’r ddyletswydd newydd ddod i rym, gan gynnwys yr angen i ystyried a oes unrhyw resymau pam na ddylai’r ddyletswydd gychwyn, neu pam y dylai’r ddyletswydd gychwyn yn hwyrach na mis Medi 2012. Yn ail, a fyddai rheoliadau dan adran 22 o Ddeddf 2010 yn angenrheidiol i ddiffinio’r ddyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau lleol i ddarparu cymhorthion ategol. | 11/11/2011 | 03/02/2012 |
| **Y Swyddfa Gartref** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>Consultation on stalking | The government has launched this consultation to ask for views on how we can protect victims of stalking more effectively. The consultation incorporates a number of issues, including current legislation, the effect of police information notices, search powers, the work of existing organisations and alternative measures to tackle stalking. | 14/11/2011 | 05/02/2012 |
| **Llywodraeth Cymru** | Ymgynghoriad ynghylch y canllawiau drafft i ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth a'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) ar dariffau cymdeithasol | Diben yr ymgynghoriad hwn yw cael barn pobl am ganllawiau drafft Llywodraeth Cymru i ymgymerwyr (cwmnïau dŵr a charthffosiaeth a chwmnïau dŵr yn unig), sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, ac Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr), ar dariffau cymdeithasol. | 14/11/2011 | 06/02/2012 |
| **Gweinyddiaeth Cyfiawnder** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>Fees in the High Court and Court of Appeal | A consultation proposing changes to fees in the High Court and Court of Appeal Division.<br><br>It is aimed at users of the High Court and Court of Appeal Civil Division, the legal profession, the judiciary, the advice sector and all with an interest in this area in England and Wales.<br><br>The aim of these proposals is to charge users of these two jurisdictions more proportionally for the resource their cases consume, while protecting access to justice for the most vulnerable. This will reduce the taxpayer subsidy of the courts service. | 15/11/2011 | 07/02/2012 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Yr Asiantaeth Safonau Bwyd** | Diddymu Rheolaethau ar Ddefaid yn sgil Chernobyl | Ffermwyr defaid yn yr ardaloedd dan gyfyngiadau yng Ngogledd Cymru, Cumbria a Gorllewin a Chanolbarth yr Alban. Cynhyrchwyr a manwerthwyr cig oen a chig defaid a'r rheiny sy'n defnyddio'r cynhyrchion hyn. | 17/11/2011 | 08/02/2012 |
| **Llywodraeth Cymru** | Pŵer gorfodol newydd i gymryd meddiant oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol | Cynigir yn y papur ymgynghori bod pŵer gorfodol newydd yn cael ei gyflwyno i gymryd meddiant oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddem yn croesawu safbwyntiau am y materion a ganlyn:<br><br>• Cyflwyno pŵer gorfodol i gymryd meddiant<br>• Gweithredu'r pŵer hwnnw. | 18/11/2011 | 10/02/2012 |
| **Gweinyddiaeth Cyfiawnder** | **(Dim ond yn y Saesneg y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn)**<br><br>Appointments and Diversity: A Judiciary for the 21st Century | A consultation on proposed amendments to the statutory and regulatory frameworks for judicial appointments, together with improving judicial diversity.<br><br>Although the principle of appointment on merit will remain, the changes will enable clear career progression and flexible working arrangements to encourage applications from previously untapped talent pools.<br><br>The wide ranging consultation seeks views whether, when considering two candidates of equal ability, there could be a presumption in favour of selecting the person from an underrepresented group.<br><br>Lack of diversity among judges has been shown to have a negative impact on the experience of people who use the courts, and limits the range of life experiences that judges can draw upon. | 21/11/2011 | 13/02/2012 |
| **Llywodraeth Cymru** | Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub o 2012 Ymlaen | Mae'r Fframwaith Tân ac Achub Cenedlaethol yn disgrifio gweledigaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.<br><br>O dan adran 21 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ("Deddf 2004") rhaid i Weinidogion Cymru baratoi ac ymgynghori ar Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub sy'n gosod blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub (ATA).<br><br>Mae'r ymgynghoriad hwn yn darparu drafft o'r Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub arfaethedig ar gyfer 2012 ac ymlaen (y Fframwaith drafft) (gweler Atodiad A). Rydym yn eich gwahodd i roi sylwadau am ei gynnwys. | 29/11/2011 | 17/02/2012 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | Rheoli gweithwyr gofal iechyd sydd wedi'u heintio â HIV | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich sylwadau ar y newidiadau arfaethedig i'r polisi presennol ar weithwyr gofal iechyd sydd wedi'u heintio â HIV.<br><br>Gwnaed argymhellion yn sgil adolygu'r canllawiau cenedlaethol presennol ar gyfer rheoli gweithwyr gofal iechyd sydd wedi'u heintio â HIV, hepatitis B a hepatitis C. Cafodd yr adolygiad ei gynnal gan weithgor a oedd yn cynnwys:<br>• Grŵp Cynghori Arbenigol ar AIDS;<br>• Panel Cynghori'r DU ar gyfer gweithwyr gofal iechyd sydd wedi'u heintio â feirysau a gludir yn y gwaed;<br>• Grŵp Cynghori ar Hepatitis.<br>Rydym yn gofyn am ymatebion i'r argymhellion hyn i helpu i asesu cyngor y gweithgor i sicrhau bod cleifion yn cael eu diogelu rhag y perygl o gael eu heintio gan HIV. | 01/12/2011 | 23/02/2012 |
| **Llywodraeth Cymru** | Diwygio Polisi Cynllunio Cymru Pennod 7 Cynnal yr Economi | Rydym yn diwygio'r polisi cynllunio ar gyfer datblygu economaidd i sicrhau ei fod yn gallu gyflawni'n dyheadau ar gyfer adfywio economaidd yng Nghymru.<br><br>Mae adroddiad ymchwil Cynllunio ar gyfer Adnewyddu Economaidd Cynaliadwy wedi llywio'r gwaith hwn. Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Roger Tym a'i Bartneriaid ar y cyd ag Asbri Planning.<br><br>Rydym hefyd am gael eich safbwyntiau am strwythur Nodyn Cyngor Technegol (TAN) newydd y byddwn yn ei gyhoeddi yn 2012. Cynhelir ymgynghoriad manwl arall ar y TAN yn ddiweddarach yn 2012. Yr unig beth rydym am ei wybod ar hyn o bryd yw a ydych yn meddwl bod strwythur y TAN yn briodol. | 28/11/2011 | 05/03/2012 |